Gwobrau eraill:

- Rheoliadau Doethuriaethau Hŷn
- Rheol Sefydlog 22 (Graddau Doethuriaethay Hŷn – Cyfarwyddiadau Cynnal Arholiadau ar gyfer Graddau DLitt, DSc, DScEcon a LLD)
- Dyfarnu Graddau, Diplomâu a Thystysgrifau ar ôl Marwolaeth

**Rheoliadau Doethuriaethau Hŷn**

**CYFLWYNIAD**

At ddibenion y Rheoliadau ar gyfer dyfarnu Doethuriaethau Hŷn, mae'r Brifysgol wedi diffinio "gwaith cyhoeddedig" fel cynnyrch ymchwil sydd ar gael yn gyhoeddus.

Gweler isod y rheoliadau ar gyfer dyfarnu'r doethuriaethau hŷn canlynol:

- Doethur mewn Llên (DLitt);
- Doethur mewn Gwyddoniaeth (DSc);
- Doethur yn y Cyfreithiau (LLD)

**RHEOLIADAU**

**1. Cymhwyster**

1.1 Fel arfer bydd ymgeisydd am ddoethuriaeth hŷn a ddyfernir gan y Brifysgol yn Raddedig o'r Brifysgol ers o leiaf ddwy flynedd. Gellir derbyn ymgeiswyr yn ystod neu ar ôl:
(i) yr ail flwyddyn wedi iddynt ennill gradd Doethur mewn Athroniaeth;
(ii) y drydedd flwyddyn wedi iddynt ennill gradd Athro mewn Athroniaeth;
(iii) neu'r ddegfed flwyddyn wedi iddynt ennill gradd Baglor yn unrhyw Gyfadran.

1.2 Mae hawl gan aelodau amser llawn o staff addysgu, ymchwil, gweinyddol, llyfrgell neu dechnegol y Brifysgol sy'n raddedig o Brifysgol arall i fod yn ymgeisydd:
(i) cyhyd â'u bod wedi ennill eu gradd gyntaf o leiaf ddeng mlynedd yn flaenorol, a
(ii) cyhyd â'u bod yn aelodau amser llawn o staff y Brifysgol ers pum mlynedd o leiaf.

**2. Meini Prawf**

2.1 Amod gofynnol derbyn ymgeiswyr i'r radd yw bod eu gwaith cyhoeddedig ym marn y Brifysgol yn arwyddocaol yn rhyngwladol ac yn gyfraniad sylweddol i hyrwyddo dysg. Gellir seilio ymgeisyddiaeth ar waith ar y cyd cyhyd ag y gellir amcangyfrif cyfran yr ymgeisydd o'r gwaith hwnnw a bod modd cymhwyso ar ei gyfer y meini prawf a ddefnyddir wrth gloriannu gwaith annibynnol

**3. Cyflwyno**

3.1 Rhaid cyflwyno Ffurflen Rhybudd o Ymgeisyddiaeth Ffurflen Gais DSc i'r Is-Ganghellor, ynghyd â thri chopi o bob un o'r gweithiau cyhoeddedig, a thri set o'r dogfennau canlynol:
(i) manylion am raddau'r ymgeisydd, cymwysterau eraill a phrofiad ymchwil, gan gynnwys yr holl fanylion angenrheidiol i gadarnhau ei fod yn gymwys o dan reoliadau'r Brifysgol;
(ii) crynodeb, pedair neu bum tudalen o hyd, yn rhoi gwybodaeth am y maes neu'r meysydd y mae'r ymgeisydd wedi arbenigo ynddo/ynddynt, ac yn nodi hefyd y cyfraniad a wnaeth y gwaith i ddysg y maes hwnnw yn eu barn hwy;
(iii) os yw'r ymgeisydd yn gydawdur ar y gwaith neu wedi cyd-weithio ag eraill, datganiad wedi ei lofnodi gan bawb a gydweithiodd yn nodi natur a chyfran y gwaith a wnaed ar y cyd.
(iv) datganiad yn nodi faint o'r gwaith a gyflwynwyd neu sy'n cael ei gyflwyno ar hyn o bryd mewn ymgeisyddiaeth am unrhyw radd arall, os o gwbl.
3.2 Yn ôl doethineb y Pwyllgor Doethuriaethau Hŷn, gellir gofyn i'r ymgeisydd ddod i gyfweliad.
3.3 Gellir cyflwyno rhybudd ymgeisyddiaeth ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd, ond os yw'n cael ei gyflwyno ar ôl 31 Ionawr, fel arfer ni chaiff canlyniad yr ymgeisyddiaeth ei bennu ar ddyddiad a'i gwna yn bosibl i'r ymgeisydd, os yw'n llwyddiannus, gael ei

dderbyn/derbyn i radd yn ystod y flwyddyn academaidd honno.
3.4 Caiff un copi o bob gwaith a gymeradwyir gan y Pwyllgor Mewnol ei osod yn Llyfrgell y Brifysgol ac un arall yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.
3.5 Rhaid anfon ffi mynediad yr ymgeisyddiaeth (£2,000) at yr Is-Ganghellor, ynghyd â'r ffurflen swyddogol o rybudd o ymgeisyddiaeth.

**4. Arholi**

4.1 Caiff Gradd Doethuriaeth Hŷn ei dyfarnu ar sail cyhoeddiadau'r ymgeisydd (fel arfer yr ugain cyhoeddiad mwyaf arwyddocaol neu nifer llai os yw'r cyhoeddiadau ar raddfa a chwmpas priodol).

4.2 Caiff cais ymgeisydd i'w dderbyn i Radd Doethuriaeth Hŷn ei graffu yn gyntaf gan y Pwyllgor Doethuriaethau Hŷn a bydd y swyddogaeth hon yn cwmpasu 3 cham:-

d) (a) Archwilio cefndir cychwynnol i ganfod a all y cais fynd yn ei flaen
(b) Cyfathrebu â'r canolwyr allanol (a ddewisir gan y Pwyllgor Doethuriaethau Hŷn)
(d) Trafod sylwadau'r canolwyr a phenderfyniad terfynol ar ddyfarnu'r Radd Doethuriaeth Hŷn

4.3 Os yw'r Pwyllgor Doethuriaethau Hŷn yn cytuno y gall cais fynd yn ei flaen, bydd y Pwyllgor Doethuriaethau Hŷn yn dethol tri chanolwr allanol i arholi datganiad a chyhoeddiadau'r ymgeisydd. Os yw'r Pwyllgor Doethuriaethau Hŷn yn pennu na chaiff cais fynd yn ei flaen, caiff 75% o'r ffi ragnodedig ei ad-dalu.

4.4 Bydd y Pwyllgor Doethuriaethau Hŷn yn pennu a yw amodau dyfarniad Gradd Doethuriaeth Hŷn wedi'u diwallu yng ngoleuni adroddiadau unigol y tri chanolwr allanol.

**5. Hysbysu Canlyniadau a Dyfarnu'r Radd**

5.1 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Doethuriaethau Hŷn yn hysbysu pob ymgeisydd a oes argymhelliad i ddyfarnu'r radd ai peidio.

5.2 Bydd diploma dan Sêl Prifysgol Aberystwyth yn cael ei ddanfon i bob ymgeisydd y dyfarnwyd iddo Radd Doethuriaeth Hŷn.

5.3 Os cyflwynir fersiwn electronig o gyflwyniad Gradd Doethuriaeth Hŷn i'r Llyfrgell, bydd y Llyfrgell yn ychwanegu copi o'r cyflwyniad Gradd Doethuriaeth Hŷn, yn cynnwys adolygiad yr awdur, rhestr o'r cynnwys a llyfryddiaeth i Porth Ymchwil Aberystwyth lle bydd ar gael yn rhydd i bawb. Bydd Archifau'r Brifysgol yn ychwanegu copi print o'r cyflwyniad y dyfarnwyd Gradd Doethuriaeth Hŷn iddo i'w casgliad. Mae'r Llyfrgell yn argymell bod yr awdur hefyd yn ychwanegu copi o bob un o'r gweithiau cyhoeddedig i'r Radd Doethuriaeth Hŷn (yn ddarostyngedig i reoliadau hawlfraint).

5.4 Gweithdrefn Apêl: yr ymgeisydd i ysgrifennu at yr Is-Ganghellor yn amlinellu'r anghysondeb gweithdrefnol honedig.

**6. Ailgyflwyno i Arholi**

Bydd unrhyw ymgeisydd sy'n methu â chymhwyso am ddyfarniad Gradd Doethuriaeth Hŷn ac sy'n dymuno ailgyflwyno am y radd yn gorfod cydymffurfio â'r rheoliadau a fydd mewn grym ar yr adeg honno.

**Rheol Sefydlog 22**

Graddau Doethuriaethau Hŷn

**Cyfarwyddiadau Cynnal Arholiadau ar gyfer Graddau DLitt, DSc, DScEcon a LLD**

1. Dylai ymgeiswyr am raddau DLitt, DSc, DscEcon a LLD anfon at y Dirprwy Is-Ganghellor dri chopi o'r gweithiau y dymunant eu cyflwyno i'w cloriannu gan y Brifysgol. Gellir anfon y gweithiau at y Dirprwy Is-Ganghellor ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd, ond ni ddylai ymgeiswyr y derbynnir eu gwaith ar ôl 31 Ionawr yn unrhyw flwyddyn fel arfer ddisgwyl cael eu derbyn i'w gradd y flwyddyn honno.

2. Caiff yr holl weithiau a gyflwynir gan ymgeisydd am un o'r graddau uchod eu hystyried gan Bwyllgor Mewnol yn cynnwys:

(i) Yr Is-Ganghellor, a

(ii) dau berson arall a benodir gan yr Is-Ganghellor (fel arfer un Dirprwy Is-Ganghellor ac uwch academydd mewn pwnc perthnasol).

3. Os cânt eu bodloni fod achos prima facie wedi ei sefydlu i gyfeirio'r gweithiau i'w harholi'n fanwl am y radd dan sylw, bydd y Pwyllgor Mewnol yn penodi tri asesydd. Os nad yw'r Pwyllgor Mewnol yn cael ei fodloni bydd yn rhoi gwybod i'r Dirprwy Is-Ganghellor a fydd yn hysbysu'r ymgeisydd: caiff dwy ran o dair o'r ffi ei had-dalu i'r ymgeisydd, ynghyd â thri chopi o'r gweithiau dan sylw.

4. Rhaid i aelodau'r Pwyllgor Mewnol a'r aseswyr fod yn gwbl annibynnol ar yr ymgeisydd ac ar ei gilydd. Rhaid i aseswyr ddatgan eu buddiant:
(i) os ydynt yn bwriadu cyflogi'r ymgeisydd eu hunain
(ii) os ydynt yn bwriadu cyhoeddi ar y cyd â'r ymgeisydd
(iii) os ydynt yn gysylltiedig, neu wedi bod yn gysylltiedig, â'r ymgeisydd mewn perthynas bersonol agos o unrhyw fath
(iv) os oes ganddynt berthynas bersonol, broffesiynol neu gytundebol agos ag unrhyw aelod arall o'r pwyllgor arholi.

5. Rhaid i bob un o'r tri asesydd a benodir anfon at y Dirprwy Is-Ganghellor adroddiad manwl ac annibynnol ar gwmpas, safon a gwreiddioldeb y gweithiau, a nodi a yw ef/hi o'r farn y dylid dyfarnu gradd.

6. Caiff adroddiadau'r tri asesydd eu cyflwyno gan y Dirprwy Is-Ganghellor i'r Pwyllgor Mewnol a fydd yn cyflwyno adroddiad, gan gynnwys argymhelliad ynglŷn â dyfarnu'r radd, i'r Bwrdd Graddau Ymchwil. Y Bwrdd Graddau Ymchwil a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ar yr ymgeisyddiaeth.

7. Wrth baratoi adroddiad ar yr ymgeisyddiaeth am y ddoethuriaeth, gofynnir i ganolwyr ystyried y cwestiynau canlynol, sef:

(i) A yw gwaith yr ymgeisydd yn dangos meistrolaeth ar y pwnc?

(ii) A oes i'r gwaith wreiddioldeb a theilyngdod haeddianol o'r radd y'i cyflwynwyd ar ei chyfer?

(iii) A yw'r gwaith yn gwneud cyfraniad sylweddol i hybu gwybodaeth yn y fath fodd ag i wneud yr ymgeisydd yn arbenigwr cydnabyddedig yn y maes dan sylw?

(iv) A ellir ystyried bod yr ymgeisydd yn deilwng i dderbyn y radd?

(Byddai o gymorth sylweddol i'r Brifysgol wrth ystyried y gwaith yn derfynol pe byddai'r aseswyr, wrth ateb y cwestiynau hyn, yn mynegi'n gryno y prif resymau am eu penderfyniadau).

8. Caiff aseswyr eu hatgoffa mai diben gofyn am waith cyhoeddedig yw sicrhau i'r gwaith a gyflwynir fod ar gael i'w feirniadu gan arbenigwyr perthnasol, a gall aseswyr anwybyddu unrhyw ran o'r gwaith a gyflwynir os na fu'r gwaith, yn eu barn hwy, ar gael i'w feirniadu naill ai am nad oedd ar gael yn hawdd neu oherwydd ei fod wedi ei gyflwyno am y radd yn rhy fuan ar ôl ei gyhoeddi.

9. Bydd adroddiadau ysgrifenedig yr aseswyr yn cael eu gosod yn archifau'r Brifysgol.

**Dyfarnu graddau Aegrotat a graddau ar ôl Marwolaeth**

Mae pob cynllun gradd a ddysgir yn cynnwys tystysgrif a diploma interim y gellir eu dyfarnu i fyfyrwyr os nad ydynt yn gallu cwblhau eu hastudiaethau. Mae'r rheoliadau gradd hefyd yn caniatáu ar gyfer gwneud dyfarniadau heb i'r holl gredydau gael eu cwblhau. Fel arfer, dim ond yn yr amgylchiadau canlynol yr ystyrir dyfarnu gradd Aegrotat neu radd ar ôl marwolaeth: nid oes dyfarniad interim i'w gael; ni ellir dyfarnu gradd o fewn y rheoliadau; a bod y myfyriwr ar fin cwblhau'r dyfarniad.

**Dyfarnu gradd Aegrotat**

Gall Bwrdd Arholi'r Senedd ddyfarnu gradd Aegrotat os rhwystrir yr ymgeisydd gan salwch neu amgylchiadau arbennig eraill rhag cwblhau elfennau arholi/asesu terfynol cynllun astudio a ddysgir. Bydd yn rhaid i'r Bwrdd gael tystiolaeth ategol briodol.

Wrth wneud hyn, rhaid i Fwrdd Arholi'r Senedd fod wedi ei fodloni:

- bod perfformiad blaenorol yr ymgeisydd yn dangos y tu hwnt i amheuaeth resymol y byddai ef/hi wedi pasio onibai am y salwch/digwyddiad dan sylw.
- nad yw'r ymgeisydd yn debygol o allu dod yn ôl i gwblhau ei astudiaethau/hastudiaethau yn nes ymlaen.

Rhaid i'r ymgeisydd gadarnhau'n ysgrifenedig ei fod ef/bod hi yn fodlon derbyn dyfarniad Aegrotat; os nad ydyw, gweithredir y confensiynau arferol ynghylch cyfleoedd ailsefyll ac estyniadau i gyfnodau amser. Bydd gradd, diploma neu dystysgrif Aegrotat yn ddi-ddosbarth ac ymhob ffordd arall heb raddfa iddi. Nid yw dyfarnu gradd Aegrotat o angenrheidrwydd yn rhoi hawl i'r deiliad gofrestru gyda chorff proffesiynol, nac i gael eithrio rhag gofynion unrhyw gymhwyster proffesiynol a allai fel arall fod yn gysylltiedig â'r cynllun astudio dan sylw.

Ni ellir eithrio unrhyw ymgeisydd rhag cyflwyno ac amddiffyn traethawd ymchwil neu rhag cyflwyno traethawd Meistr (neu elfen gyfatebol) lle bo angen. Y mae'n dilyn, felly, na chaiff Byrddau Arholi argymell dyfarnu gradd ymchwil Aegrotat, a dim ond lle gellir arholi'r gwaith a wnaed ar gyfer y traethawd y gellir dyfarnu gradd Meistr trwy Gwrs Aegrotat.

**Dyfarnu gradd ar ôl Marwolaeth**

Gall Byrddau Arholi'r Senedd (neu Gadeirydd y Bwrdd, trwy gamau gweithredol) gadarnhau dyfarnu gradd ar ôl marwolaeth ar argymhelliad Bwrdd Arholi'r Adran/Athrofa os cafodd digon o gredydau eu pasio ar lefel y dyfarniad i'w gwneud yn amlwg, heb amheuaeth resymol, y byddai'r ymgeisydd wedi ennill y cymhwyster. Bydd gradd ar ôl marwolaeth yn ddiddosbarth. Er enghraifft, dylasai ymgeisydd am radd gychwynnol tair blynedd fod wedi symud ymlaen i'r drydedd flwyddyn ac wedi cwblhau'r semester cyntaf yn llwyddiannus.

Yn achos dyfarniad Meistr, os bu farw ymgeisydd cyn cyflwyno traethawd hir neu elfen gyfatebol, gellir argymell dyfarnu gradd ar ôl marwolaeth cyhyd ag y gall y Bwrdd ystyried y dystiolaeth sydd ar gael o'r gwaith a gyflawnwyd gan yr ymgeisydd. Fel arfer, bydd tystiolaeth o'r fath yn cael ei darparu gan arolygydd/ymgynghorydd yr ymgeisydd, a fydd hefyd yn cyflwyno adroddiad i'w ystyried gan yr arholwyr, gan gynnwys argymhelliad a dadleuon da o blaid dyfarnu gradd yn seiliedig ar y meini prawf canlynol:

- rhaid bod digon o'r prosiect ymchwil wedi'i gwblhau i ganiatáu cyflawni asesiad priodol o hyd a lled a chwmpas y gwaith.

- rhaid i safon y gwaith ymchwil a gwblhawyd fod yr hyn sydd fel arfer yn ofynnol i ddyfarnu'r radd dan sylw, a dangos gafael yr ymgeisydd ar y pwnc.
- dylai'r deunydd ysgrifenedig sydd ar gael (drafft o benodau, gwaith cyhoeddedig, gwaith a baratowyd i'w gyhoeddi, cyflwyniadau i gynadleddau / seminarau, adroddiadau cynnydd a baratowyd gan yr ymgeisydd i'w adran/athrofa/noddwr) ddangos gallu'r ymgeisydd i ysgrifennu traethawd hir neu elfen gyfatebol i'r safon ofynnol.

Bydd gradd, diploma neu dystysgrif a ddyfernir ar ôl marwolaeth yn ddiddosbarth.

**Graddau Ymchwil Uwchraddedig**

Gall y Bwrdd Arholi Graddau Ymchwil Uwchraddedig argymell i'r Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil) y gellir dyfarnu gradd ar ôl marwolaeth os bu farw ymgeisydd

- ar ôl i'r traethawd ymchwil gael ei arholi, neu ei gyflwyno i'w arholi, ond cyn i'r arholiad llafar (lle bo angen) gael ei gynnal.

Mewn achos o'r fath, bydd y Bwrdd yn ystyried y gwaith a gyflwynwyd a, chyhyd â'i fod yn fodlon mai gwaith yr ymgeisydd ei hun ydyw (trwy dderbyn adroddiadau gan Bennaeth yr Adran a'r Arolygydd), gall benderfynu argymell bod dyfarniad yn cael ei wneud.

- cyn cyflwyno'r traethawd ymchwil.

Mewn achos o'r fath, bydd y Bwrdd yn ystyried y dystiolaeth sydd ar gael o'r gwaith ymchwil a gyflawnwyd gan yr ymgeisydd. Fel arfer, darperir tystiolaeth o'r fath gan arolygydd yr ymgeisydd, a fydd hefyd yn cyflwyno adroddiad i'w ystyried gan yr arholwyr. Bydd Pennaeth yr Adran dan sylw hefyd yn cyflwyno argymhelliad yn gosod allan y dadleuon ynghylch dyfarnu'r radd. Rhaid bodloni'r meini prawf canlynol hefyd:

- rhaid bod digon o'r prosiect ymchwil wedi'i gwblhau i ganiatáu gwneud asesiad priodol o hyd a lled a chwmpas y traethawd ymchwil;
- rhaid i safon y gwaith ymchwil a gyflawnwyd fod yr hyn sydd fel arfer yn ofynnol i ddyfarnu'r radd dan sylw, a rhaid ei fod yn dangos gafael yr ymgeisydd ar y pwnc;

Rhaid i'r deunydd ysgrifenedig (drafft o benodau, gwaith cyhoeddedig, gwaith a baratowyd i'w gyhoeddi, cyflwyniadau i gynadleddau / seminarau, adroddiadau cynnydd a baratowyd gan yr ymgeisydd i'w adran/athrofa/noddwr) ddangos gallu'r ymgeisydd i ysgrifennu traethawd hir neu elfen gyfatebol i'r safon ofynnol.